2024

# Strategaeth a Chynllun Gweithredu Rheoli Perygl Llifogydd Lleol

# Atodiad B – Cyd-Destun Deddfwriaethol

**CYNGOR CAERDYDD - 2024**

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Cymreig/
This document is available in Welsh

CRYFACH TECACH GWYRDDACH | STRONGER FAIRER GREENER

CARDIFF CAERDYDD

# Atodiad B

## *Cyd-Destun Deddfwriaethol*

Mae rheoli perygl llifogydd yn cael ei effeithio gan ystod o ganllawiau a deddfwriaeth sy'n cydgysylltu sydd wedi'u hystyried wrth ddatblygu'r strategaeth hon.

**Adolygiad Pitt (2008)**

Ar ôl llifogydd dinistriol 2007 a hawliodd 13 o fywydau ac a effeithiodd ar dros 23 o siroedd yn Lloegr ynghyd â rhannau o Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, gofynnwyd i Syr William Pitt gynnal adolygiad helaeth o reoli perygl llifogydd ledled y DU.

Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Mehefin 2008 ac roedd yn cynnwys 92 o argymhellion ar gyfer rheoli risg llifogydd ar draws y DU yn y dyfodol, gan gynnwys yr holl randdeiliaid, gan gynnwys 4 argymhelliad a oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â'r diwydiant yswiriant.

**Rheoliadau Perygl Llifogydd (2009)**

Diben Rheoliadau Perygl Llifogydd 2009 yw trosi Cyfarwyddeb Llifogydd y Comisiwn Ewropeaidd (CE) ar asesu a rheoli perygl llifogydd lleol i gyfraith ddomestig yng Nghymru a Lloegr.

Nododd y rheoliadau yr Awdurdodau Rheoli Risg a diffiniwyd Cyngor Caerdydd yn briodol fel yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol (ALlLIA), sy'n gyfrifol am gyflawni canlyniadau'r gyfarwyddeb ar ffynonellau perygl llifogydd lleol megis dŵr daear, dŵr wyneb a chyrsiau dŵr cyffredin. Cafodd CNC (Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru ar y pryd) ei ddiffinio fel yr awdurdod sy'n gyfrifol am gyflawni cynlluniau rheoli perygl llifogydd ar gyfer cymunedau sydd mewn perygl o lifogydd o'r afonydd a'r môr.

Gosododd y rheoliadau nifer o ddyletswyddau ar asiantaeth yr amgylchedd a'r ALlLlAau gyda'r gofyniad i gyhoeddi tair dogfen allweddol:

- Asesiad Cychwynnol o'r Bygythiad Llifogydd (ACBLl) – I nodi ardaloedd a chymunedau sydd mewn perygl sylweddol o lifogydd. Mae'r asesiadau hyn yn bwydo i mewn i lunio'r mapiau risg a'r cynlluniau rheoli.
- Mapiau Peryglon Llifogydd a Risgiau Llifogydd – Llunio mapiau peryglon a risgiau ar gyfer pob ffynhonnell llifogydd.
- Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd (CRhPLl) - Cynlluniau rheoli ar gyfer yr ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd i gael eu disodli gan y strategaeth hon.

**Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr (2010)**

Ym mis Ebrill 2010 cyflwynwyd y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr yng Nghymru a Lloegr a oedd yn allweddol i weithredu'r argymhellion a ddeilliodd o adolygiad Pitt.

Gosododd y ddeddf nifer o ddyletswyddau statudol ar randdeiliaid allweddol o fewn y diwydiant perygl llifogydd sef Llywodraeth Cymru ac ALlLlAau / Awdurdodau Rheoli Risg, gan ei gwneud yn ofynnol iddynt fabwysiadu a gweithredu strategaeth perygl llifogydd.

Roedd y ddeddf hon yn diffinio perygl llifogydd lleol a'r Awdurdodau Rheoli Risg perthnasol sy'n gyfrifol am ei liniaru a'i reoli.

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ddeddf gan Senedd Cymru sydd â'r nod o wella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Mae'r ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ymgymryd â'u dyletswyddau wrth geisio lles Cymru mewn ffordd sy'n cyd-fynd â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i adrodd ar gamau gweithredu o'r fath.

Mae gan Gyngor Caerdydd fel awdurdod lleol ddyletswydd i gyfrannu at y 7 nod llesiant, trwy ddefnyddio a rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a rheoli perygl llifogydd ledled dinas Caerdydd.

**Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Caerdydd (2016)**

Ar 28 Ionawr 2016, mabwysiadodd y Cyngor Gynllun Datblygu Lleol ar gyfer Caerdydd. Daeth y CDLl yn weithredol wrth ei fabwysiadu ac mae bellach yn ffurfio'r cynllun datblygu a bydd yn sail i wneud penderfyniadau o ran cynllunio defnyddio tir yng Nghaerdydd.

Bydd y CDLl yn cael ei ddefnyddio gan y Cyngor i arwain a rheoli datblygiad, gan ddarparu sail ar gyfer penderfynu ar geisiadau cynllunio. Bydd y CDLl yn disodli'r fframwaith cynllun datblygu mabwysiedig presennol ar gyfer Caerdydd sy'n cynnwys Cynllun Datblygu Unedol Ar Adnau Caerdydd (2003), Cynllun Strwythur Sirol Newydd De Morgannwg (Ardal Caerdydd), Cynllun Strwythur Sirol Morgannwg Ganol, Cynllun Mwynau Lleol De Morgannwg (Ardal Caerdydd) a Chynllun Lleol Dinas Caerdydd.

Mae perygl llifogydd yn thema allweddol drwy gydol y cynllun, gyda'i bolisi ei hun EN14: Perygl Llifogydd sy'n ceisio osgoi datblygiad lle byddai perygl llifogydd o ystod eang o ffynonellau neu gynyddu/dargyfeirio perygl llifogydd i fannau eraill.

**Cynllun Rheoli Basn Afon Hafren (2017)**

Mae Cynllun Rheoli Basn Afon Hafren yn amlinellu cyflwr presennol y basn a’r modd y mae’n cael ei reoli yn y dyfodol.

Diben cynllun rheoli basn afon yw darparu fframwaith ar gyfer diogelu a gwella'r manteision a ddarperir gan amgylchedd dŵr yr afon wrth lywio penderfyniadau ar gynllunio defnydd tir.

Mae'r cynllun yn cynnwys 4 cyfres o wybodaeth y dylai rhanddeiliaid sy'n rheoli tir a dŵr o fewn y basn roi sylw arbennig iddynt.

- Dosbarthiad gwaelodlin o gyrff dŵr
- Amcanion statudol ar gyfer ardaloedd gwarchodedig
- Amcanion statudol ar gyfer cyrff dŵr
- Rhaglen gryno o fesurau i gyflawni amcanion statudol

Mae'r cyfrifoldeb dros gynllunio dyfodol basn Afon Hafren yn cael ei rannu rhwng Asiantaeth yr Amgylchedd a CNC.

**Cynllun Rheoli Traethlin Aber Afon Hafren (2017)**

Wedi'i ddatblygu mewn partneriaeth gan awdurdodau lleol, rheoleiddwyr a rhanddeiliaid eraill, mae Cynllun Rheoli Traethlin (CRhT) yn ddogfen bolisi anstatudol lefel uchel a gynlluniwyd i gynorthwyo’r gwaith o gynllunio rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol.

Mae'n darparu asesiad ar raddfa fawr o'r risgiau (i bobl, i eiddo, i’r amgylchedd naturiol a hanesyddol) sy'n gysylltiedig ag erydu arfordirol a llifogydd ar yr arfordir dros yr hirdymor. Mae hefyd yn cynnig polisïau i helpu i reoli'r risgiau hyn yn gynaliadwy dros y can mlynedd nesaf.

Mae'r CRhT2 ar gyfer Aber Afon Hafren yn diweddaru CRhT1 cynharach (2000) ar gyfer yr aber. Ei nod yw rhoi mwy o sicrwydd i dirfeddianwyr, trigolion a busnesau; i wybod sut y bydd rheoleiddwyr yn rheoli'r arfordir yn ystod y 100 mlynedd nesaf, fel y gallant gynllunio ymlaen llaw a gwneud penderfyniadau am fuddsoddiadau, cartrefi, datblygu a’r modd y caiff eu hadnoddau eu rheoli.

O fewn CRhT2 mae Cyngor Caerdydd wedi mabwysiadu strategaeth o "Gynnal y Llinell" ar gyfer y 3 uned bolisi y mae'n gyfrifol amdanynt.

**Y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru (2020)**

Cyhoeddwyd y strategaeth genedlaethol wedi'i diweddaru ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru gan Lywodraeth Cymru yn 2020, gan ddisodli strategaeth 2011. Nod y strategaeth yw darparu dull unffurf ac integredig o reoli perygl llifogydd ledled Cymru. Mae'r strategaeth yn nodi 5 amcan allweddol:

- Gwella ein dealltwriaeth a'n prosesau cyfathrebu risg

- Parodrwydd ac adeiladu gwydnwch
- Blaenoriaethu buddsoddiad a chyllid i'r cymunedau sydd fwyaf mewn perygl
- Atal mwy o bobl rhag dod i gysylltiad â risg
- Darparu ymateb effeithiol a pharhaus i ddigwyddiadau

Yn yr un modd â strategaeth perygl llifogydd lleol Cyngor Caerdydd, mae gan y strategaeth genedlaethol gyfres o fesurau i gynorthwyo'r gwaith o gyflawni amcanion y strategaeth.

**Polisi Cynllunio Cymru (2021)**

Mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC) yn nodi polisïau cynllunio defnydd tir Llywodraeth Cymru sy'n cael eu hategu gan gyfres o nodiadau cyngor technegol (NCTau).

Y NCT sy'n berthnasol i'r strategaeth hon yw NCT 15: Safleoedd Datblygu a Pherygl Llifogydd.

Mae NCT 15 yn darparu canllawiau atodol i PCC ynghylch datblygu a'r ystyriaethau perygl llifogydd sy'n deillio o hynny.
Mae NCT 15 yn nodi crynodeb o ofynion polisi ar gyfer datblygiadau newydd ar gyfer pob un o'r gwahanol fathau o ddatblygiadau a pharthau llifogydd. Mae'r ddogfen hefyd yn rhoi cyngor i awdurdodau cynllunio lleol a datblygwyr ar lunio a derbyn asesiadau canlyniadau llifogydd manwl a gofynion perygl llifogydd cysylltiedig.

Cyflwynwyd NCT 15 wedi'i ddiweddaru gan Lywodraeth Cymru yn 2021, ond ychydig cyn ei ddyddiad deddfu cafodd y nodyn cyngor ei atal am 18 mis i ganiatáu i awdurdodau lleol, rhanddeiliaid a datblygwyr gael cyfle i ddeall y goblygiadau.

Roedd y NCT 15 wedi'i ddiweddaru yn cynnwys adran ar newid yn yr hinsawdd a'i effaith ar risg llifogydd, gan ddarparu canllawiau wedi'u diweddaru a chyflwyno polisi newydd ar y prawf dilyniannol ar gyfer datblygiadau mewn ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd.

**Cam 1 - Asesiad Canlyniadau Llifogydd Strategol, De-ddwyrain Cymru (2022)**

Cafodd asesiad canlyniadau llifogydd strategol de-ddwyrain Cymru ei gomisiynu gan awdurdodau cynllunio lleol de-ddwyrain Cymru yn 2021. Bwriad yr asesiad hwn yw nodi perygl llifogydd ar draws y rhanbarth i lywio cynlluniau datblygu lleol a dyraniadau tir.

Mae Cam 1 yn asesiad desg sy'n casglu'r holl wybodaeth sydd ar gael i gynnal asesiad lefel uchel o berygl llifogydd ar draws y rhanbarth. Mae'r asesiad hefyd yn darparu cyfleoedd lefel uchel ar gyfer rheoli perygl llifogydd ar draws y rhanbarth yn benodol gan ddefnyddio dulliau rheoli llifogydd yn naturiol.

**Cynllun Rheoli Draenio a Dŵr Gwastraff Dŵr Cymru Welsh Water (2024)**

Ym mis Tachwedd 2023 rhyddhaodd Dŵr Cymru Welsh Water (DCWW) ei Gynllun Rheoli Draenio a Dŵr Gwastraff (CRhDDG) cyntaf.

Mae'r CRhDDG yn gosod cyfeiriad strategol DCWW ar gyfer gwasanaethau dŵr gwastraff yng nghyd-destun anghenion eu cwsmeriaid, gan greu methodoleg glir ac offer i gefnogi gwella eu gweithrediad o asedau dŵr gwastraff a charthffosiaeth wrth sicrhau eu bod yn parhau i fod yn gynaliadwy.